# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.44** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Nododd y Rheolwyr Busnes y cynhelir y pleidleisiau ar bob eitem o fusnes ac eithrio'r ddadl Cyfnod 3 cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth, ac y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Tai (Cymru) yn cael eu cynnal yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd y byddai egwyl o 15 munud cyn y bydd trafodion Cyfnod 3 yn dechrau, a bod 3 awr wedi cael eu neilltuo ar gyfer yr eitem.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 9 Gorffennaf 2014**

- Dadl fer - Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)*Gohiriwyd ers 18 Mehefin 2014*

**Dydd Mercher 17 Medi 2014**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer (30 munud)

3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl:

**Dydd Mercher 9 Gorffennaf 2014**

**NNDM5536**
**Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**
**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r awydd llethol ymhlith cefnogwyr pêl-droed i weld cyfleusterau sefyll diogel yn cael eu cyflwyno;

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chymdeithasau chwaraeon ac awdurdodau rheoleiddio i hyrwyddo cyfleusterau sefyll ddiogel yn stadia chwaraeon yng Nghymru; ac

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ystyried cyflwyno cynllun peilot ar gyfer cyfleusterau sefyll diogel yng Nghymru.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol gael ei chynnal ddydd Mercher 15 Hydref 2014.

## 4 Y Gyllideb

4.1 Amserlen ar gyfer Cyllideb 2015-16: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid

Nododd y Pwyllgor Busnes fwriad y Llywodraeth i osod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 ar 30 Medi 2014 ac i gyflwyno cynnig ar y gyllideb flynyddol ar 2 Rhagfyr 2014.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid cyn penderfynu ar y dyddiad terfyn i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y gyllideb ddrafft.

## 5 Deddfwriaeth

5.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig: Y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig mewn perthynas â'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig at bwyllgor craffu, a nododd y bydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2014.

5.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm atodol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol erbyn 25 Medi 2014 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Medi 2014.

5.3 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 24 Mehefin 2014 i gyfeirio'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) i'r Pwyllgor Plant, Pobl

Ifanc ac Addysg ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 14 Tachwedd 2014, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 29 Ionawr 2015.

5.4 Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 – Deddfau'r Cynulliad

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 i weithredu argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Rheolwyr Busnes yn eu cyfarfod ar 20 Mai 2014.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau a dychwelyd at y mater mewn pythefnos.

## 6 Pwyllgorau

6.1 Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Cais i gynnal cyfarfod ffurfiol yn Sioe Frenhinol Cymru

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ffurfiol yn Sioe Frenhinol Cymru ar 23 Gorffennaf 2014.

## 7 Cyfarfod Llawn

Yn y cyfarfod ar 17 Mehefin 2014, ystyriodd y Rheolwyr Busnes gynigion ar adolygu Cwestiynau Llafar y Cynulliad a chytunwyd i ymgynghori â'u grwpiau ar y diwygiadau posibl a amlinellir yn y papur, ac i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod heddiw.

Roedd Rheolwyr Busnes y Ceidwadwyr, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Cwestiynau ar Faterion Cyfoes a Chwestiynau Llefarwyr. Roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Cwestiynau Llefarwyr.

Bydd y Llywydd yn ystyried yr opsiynau yng ngoleuni sylwadau'r Rheolwyr Busnes, ac yn dychwelyd i'r mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

7.1 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad

Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wrth y Pwyllgor fod cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach (Memorandwm Rhif 4) wedi cael ei osod heddiw ar y Bil Dadreoleiddio, ac y byddai papur yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr wythnos nesaf.